# Archwiliad o'r Cysylltiad Posibl rhwng Presenoldeb a Chynhwysiant mewn Addysg a'r Effaith ar Blant a Phobl Ifanc ag ADY yng Nghymru: Safbwynt Rhieni

Hayley Thomas

CRYNODEB

Nod yr astudiaeth hon oedd nodi themâu a phryderon i lywio ymarfer a dylanwadu ar newid cadarnhaol mewn presenoldeb mewn ysgolion, yn enwedig ar gyfer pobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).

Adeg ysgrifennu'r papur hwn, nid yw presenoldeb mewn ysgolion ar ôl y pandemig yng Nghymru wedi dychwelyd i lefelau cyn y pandemig, gyda phresenoldeb phobl ifanc ag ADY yn waeth o'i gymharu â'u cyfoedion. Mae cyfraddau absenoldeb ar gyfer myfyrwyr ag anghenion dysgu ychwanegol a'r rhai o dan Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy (SA+) yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd Cymru gyfan.

Defnyddiwyd holiadur i gasglu data gan rieni/gofalwyr (n=149) ar draws amrywiol awdurdodau lleol yng Nghymru. Dadansoddwyd y data gan ddefnyddio methodoleg ddehongli a dadansoddiad thematig.

Nododd yr ymchwil themâu clir o adborth rhieni/gofalwyr ar sut i wella presenoldeb ysgol plant ag ADY. Tynnodd sylw at bwysigrwydd safbwyntiau rhieni wrth fynd i'r afael â phroblemau presenoldeb a rhoddodd fewnwelediadau i helpu awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru i weithredu newidiadau i wella ymgysylltiad a phresenoldeb.

**Geiriau allweddol:** presenoldeb, ADY, safbwyntiau rhieni, ymgysylltu â dysgu i blant ag ADY

---

*https://doi.org/10.16922/ffocws13*

## Cyflwyniad

Mae'r llenyddiaeth a'r dystiolaeth ehangach o bob rhan o'r DU yn dangos bod y sector addysg yn wynebu her ddifrifol o ran cyfraddau presenoldeb. Yng Nghymru, roedd 16.3 y cant o ddisgyblion rhwng 11 a 15 oed yn absennol o'r ysgol yn gyson, sef canran dair gwaith yn uwch na'r hyn a welwyd cyn y pandemig (Rowlands, 2022). Roedd plant ag anghenion dysgu ychwanegol a disgyblion sy'n byw mewn tlodi yn fwy tebygol o fod yn absennol yn gyson. Yr un oedd y sefyllfa yn Lloegr, lle adroddwyd nad oedd presenoldeb wedi dychwelyd i lefelau cyn y pandemig gyda chwarter y disgyblion yn absennol yn gyson ar gyfradd frawychus o 25.1 y cant yn 2023, o'i gymharu â 13.1 y cant yn nhymor yr hydref 2019 (BBC News, 2023). Mae Llywodraeth y DU wedi tynnu sylw at raglen bresenoldeb i fynd i'r afael â'r pryder yn Lloegr (Yr Adran Addysg, 2023).

Mewn adroddiad a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2022 (Rowlands, 2022), tynnwyd sylw at gyffredinrwydd absenoldeb ymhlith disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yng Nghymru cyn dechrau'r pandemig, gyda'r data yn dangos cyfradd sylweddol uwch o absenoldebau o'i gymharu â'r boblogaeth gyffredinol o ddisgyblion, fel y nodir yn Nhabl 1 isod.

Mewn datganiad yn 2022, nododd y Gweinidog Addysg ar y pryd fod y gyfradd absenoldeb gyffredinol yn 5.7 y cant yn 2018/2019 ac roedd y data dros dro ar gyfer y cyfnod wedi'r pandemig yn 2022/2023 yn dangos cynnydd i 10.5 y cant, wrth gymharu'r data ar draws y boblogaeth ddisgyblion o'r cyfnod cyn y pandemig yn 2018/2019 (Llywodraeth Cymru, 2022). Bu'r data a gyflwynwyd yn ysgogiad i Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru, a oedd wedi cymryd rhan yn adolygiad Llywodraeth Cymru, i fynegi eu bod yn bryderus iawn am y lefelau uchel o ddiffyg presenoldeb ymhlith pobl ifanc awtistig (Rowlands, 2022).

***Tabl 1: Data Presenoldeb Disgyblion Cyn Covid-19 (Rowlands, 2022)***

| *Tabl 1: Absenoldebau disgyblion cyn COVID-19 2018-2019* | **Uwchradd** | **Cynradd** |
|---|---|---|
| **Cyfartaledd – canran o'r cyfan** | 6.2% | 5.3% |
| **Canran nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim** | 5.3% | 4.7% |
| **Canran prydau ysgol am ddim** | 10.5% | 7.9% |
| **Datganiad Anghenion Addysgol Arbennig** | 7.8% | 7.7% |
| **Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy+** | 10.3% | 7.0% |

Mae presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol yn galluogi disgyblion ac ysgolion i anelu at ragoriaeth ac i fod y gorau y gallant fod, a thrwy hynny'n gosod y sylfeini ar gyfer llwyddiant person ifanc (Rowlands, 2022).

## Adolygiad Llenyddiaeth

Mae nifer o ddeddfwriaethau a chanllawiau statudol yn llywodraethu presenoldeb yn yr ysgol (Llywodraeth Cymru, 2017). Mae'r Ddeddf Addysg (1996) cyn datganoli yn mynnu bod yn rhaid i rieni/gofalwyr dysgwyr sydd ag AAA/ADY sicrhau bod eu plentyn yn bresennol yn yr ysgol yn rheolaidd, gydag Adran 444 yn nodi y gallant fod yn euog o drosedd os yw eu plentyn yn methu â mynychu'r ysgol yn rheolaidd (Deddf Addysg, 1996). Mae Goruchaf Lys y DU yn diffinio 'presenoldeb rheolaidd' fel mynychu'r ysgol bob dydd y mae ar agor. Nid oes gan ysgolion bwerau cyfreithiol i orfodi presenoldeb, felly rhaid i awdurdodau lleol ymyrryd os yw disgyblion yn methu â mynychu'n rheolaidd, yn unol â'r canllawiau statudol i helpu i atal plant a phobl ifanc rhag colli addysg (Llywodraeth Cymru, 2017) ac o dan y rheoliadau perthnasol yng Nghymru (Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru), 2010).

Bu pryderon am bresenoldeb ysgol ers tro byd. Sefydlwyd presenoldeb gorfodol yn y DU yn y 1880au, gyda chyfraddau presenoldeb cyfartalog tua 82 y cant erbyn y 1890au, sy'n debyg i gyfraddau absenoldeb parhaus modern (Mcculloch, 2020). Mae'n fwy na dim ond presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol; bu cysylltiadau hefyd ag ecsbloetio a throseddu (Franklin, 2025). Canfu astudiaeth bum mlynedd yn Lloegr, ymhlith pobl ifanc a oedd yn gyson absennol, roedd 90 y cant yn droseddwyr ifanc, roedd 83 y cant yn meddu ar arf, roedd dros hanner wedi cael dedfryd o garchar ac roedd dros 90 y cant yn wrywod; cefnogwyd hyn gan ganfyddiadau tebyg gan Weinyddiaeth Gyfiawnder y DU (2022). Mae Lave a Wenger (1991) a Kearney (2016) yn disgrifio'r dylanwadau y gall pobl ifanc fod yn agored iddynt, os nad ydynt yn yr ysgol yn rheolaidd, megis ecsbloetio, rhyngweithio cymdeithasol gwael, dysgu ymddygiadau negyddol, peidio â chyflawni'n academaidd a'r effaith ar lesiant.

Er gwaethaf y cymhlethdodau sy'n gysylltiedig ag ymddygiad negyddol ymhlith pobl ifanc a'r heriau y maent yn eu hwynebu, mae damcaniaethwyr allweddol yn ystyried y goblygiadau amgylcheddol a all ddylanwadu ar ymddygiad (Kearney,

2016). Yn 1913, cyflwynodd Watson y cynnig bod yr amgylchedd yn cael dylanwad mwy dwys ar ymddygiad pobl ifanc na geneteg. Yn yr un modd, mae dyneiddiaeth a damcaniaethau dysgu sefyllfaol fel Lave a Wenger (1991) yn dweud bod caffael gwybodaeth yn cael ei hwyluso fwy gan ryngweithiadau a pherthnasoedd cymdeithasol na chan leoliadau ystafelloedd dosbarth traddodiadol. Yn yr un modd, sylwodd Piaget fod dylanwadau allanol, fel pwysau cyfoedion, yn gallu effeithio ar ddysgu (Inhelder a Piaget, 1958). Mae'r rhain hefyd yn awgrymu y gall absenoldeb o'r ysgol arwain at bobl ifanc yn chwilio am gyfleoedd dysgu mewn amgylcheddau a allai fod yn negyddol, fel y mae'r ystadegau uchod yn dangos. Fodd bynnag, mae Hughes (2023) yn nodi bod ffactorau negyddol eraill wedi dylanwadu ar bresenoldeb yn yr ysgol ers y pandemig. Mae'r rhain yn cynnwys cynnydd mewn gorbryder, iechyd meddwl a llesiant meddyliol, yn ogystal â'r ffaith bod cau ysgolion wedi arwain at agwedd fwy hamddenol ymhlith rhieni a gofalwyr tuag at golli'r ysgol.

Fodd bynnag, yr hyn sy'n bwysig ei gydnabod ar gyfer yr ymchwil hon yw bod gan bobl ifanc ag ADY gyfraddau presenoldeb sylweddol is na'u cyfoedion (Rowlands, 2022; Ymchwil y Senedd, 2024). Bydd presenoldeb gwael yn yr ysgol yn debygol o greu bwlch dysgu oherwydd yr ymgysylltiad gwael â dysgu. Yng Nghymru mae 105,000 o ddisgyblion wedi'u cydnabod yn swyddogol fel rhai ag ADY/AAA, sy'n cyfateb i 1 o bob 5 dysgwr, sy'n cael eu nodweddu fel rhai sy'n profi anawsterau dysgu (Senedd, 2021; Knight et al., 2024), felly, mae cael gwared ar rwystrau i ymgysylltu â dysgu yn hanfodol (Knight a Crick, 2022; Conn et al., 2024).

Mae presenoldeb gwael yn gwaethygu pryderon ynglŷn ag ailgydio mewn dysgu (Llywodraeth Cymru, 2023a; 2023b). I'r rhai sydd ag ADY, mae ailgydio yn broses fwy heriol byth. Yn ogystal ag anawsterau dysgu, bwlch dysgu a gostyngiad mewn rhyngweithio cymdeithasol o ganlyniad i bresenoldeb afreolaidd yn yr ysgol, gall y cyfuniad helpu person ifanc i eisiau bod gartref yn hytrach nag yn yr ysgol, a all arwain at osgoi ysgol am resymau emosiynol (EBSA), a nodweddir gan absenoldebau sy'n achlysurol neu'n hir (Thambirajah et al., 2008). Fel y nodwyd gan Dannow et al. (2018) a Rowlands (2022), gall plant hyd yn oed brofi gorbryder wrth symud o gwmpas yr ysgol. Gall y trawsnewid o ysgol gynradd fach i ysgol uwchradd fawr yn arbennig beri iddynt ddatgysylltu a gallai myfyrwyr ag ADY deimlo'n anniogel oherwydd y problemau corfforol a synhwyraidd y gallant eu profi (Baker a Bishop, 2015; Rowlands, 2022).

## Dulliau

Roedd yr astudiaeth ansoddol hon yn archwilio safbwyntiau rhieni/gofalwyr plant ag ADY neu blant a oedd yn aros am ddiagnosis. Yn yr astudiaeth hon, defnyddiwyd dehonglaeth, athroniaeth ymchwil sy'n blaenoriaethu deall yr ystyron goddrychol y mae unigolion yn eu rhoi i'w gweithredoedd a'u profiadau, gan bwysleisio felly'r angen i ddewis dull ymchwil priodol i alinio'n effeithiol â'r dull dehongli hwn (Thomas, 2023). Defnyddiodd yr ymchwil hon o holiadur (Lune et al., 2016), a oedd yn golygu bod modd cysylltu'n gyflym â llawer o gyfranogwyr a chaniatáu iddynt fynegi eu barn a'u pryderon yn gyfrinachol. Mae'r fethodoleg hon wedi'i chysylltu'n agos ag ymchwil ansoddol a'i phwyslais ar ymchwiliad naturiolaidd (Cohen et al., 2007; Thomas, 2023), gan gydnabod bod y data a gesglir yn oddrychol, gan adlewyrchu profiadau personol ac unigryw o bosibl.

Cyn dechrau prosiect ymchwil, rhaid dilyn gweithdrefnau moesegol, gan gynnwys llwyddo i gael cymeradwyaeth y sefydliad (Brooks et al., 2014). Mae moeseg mewn ymchwil yn cwmpasu didwylledd, uniondeb, gofal a chyfrinachedd; rhaid i ymchwilwyr barchu gwahanol ddiwylliannau a safbwyntiau, a sicrhau bod prosesau diogelu data yn cael eu dilyn (Darlington a Scott, 2002). Roedd y data a gasglwyd yn ddienw er mwyn sicrhau cyfrinachedd, gyda'r canfyddiadau wedi'u cynllunio i beidio ag adnabod unrhyw un ond i nodi patrymau a themâu (Casio a Racine, 2018).

I ddadansoddi'r data, defnyddiwyd dull dadansoddi thematig (Braun a Clarke, 2022). Roedd dadansoddiad thematig yn caniatáu archwiliad dyfnach o batrymau a themâu o fewn y data, gan wella drwy hynny'r dyfnder dehongli cyffredinol a darparu mewnwelediadau gwerthfawr i'r cwestiwn ymchwil.

Roedd y broses samplu bwriadus yn cynnwys rhieni/gofalwyr plant ag ADY neu'r rhai sy'n aros ar y llwybr niwroddatblygiadol (ND) am ddiagnosis. Casglwyd y wybodaeth hon trwy holiadur ar-lein a rannwyd gan awdurdodau lleol a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol. Sicrhaodd y dull samplu bwriadus a chyfleustra cyfunol hwn fod y cyfranogwyr yn benodol berthnasol i'r nod ymchwil. Pwysleisiodd Dhivyadeepa (2015) rôl hanfodol samplu wrth nodi ffynonellau priodol, gan dynnu sylw at y ffaith bod dulliau samplu effeithiol yn hanfodol ar gyfer cael data ystyrlon a chyd-destunol gyfoethog. Trwy ddewis cyfranogwyr sy'n cyd-fynd â meini prawf yr astudiaeth o fod naill ai â diagnosis o ADY neu'n aros am ddiagnosis, nod yr ymchwil oedd casglu safbwyntiau yn uniongyrchol gan y rhai sydd â phrofiadau perthnasol, a thrwy hynny wella perthnasedd y canfyddiadau.

O gasglu data i ddeall rhwystrau a llywio ymarfer i ymgysylltu â phobl ifanc ag ADY, roedd y dull hwn yn caniatáu i rieni/gofalwyr leisio eu safbwyntiau ar brofiad eu plentyn o'r ysgol, casglwyd data gan bob un o'r pum awdurdod lleol fel 'porthorion' ynghyd â rhieni/gofalwyr yn uniongyrchol trwy'r cyfryngau cymdeithasol.

Casglwyd data sylfaenol drwy holiaduron, gydag ymatebion yn dod i law gan rieni/gofalwyr o wahanol awdurdodau lleol yng Nghymru: Castell-nedd Port Talbot, Caerdydd, Powys, Bro Morgannwg, Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful. Felly, roedd ymatebion rhieni/gofalwyr o ardaloedd o amddifadedd a chyfoeth, sy'n cwmpasu cynrychiolaeth dda o'r cymunedau yng Nghanolbarth a De Cymru. Gofynnwyd i gyfranogwyr ateb 38 o gwestiynau a gallent farcio cwestiynau fel 'ddim yn berthnasol' os nad oeddent yn berthnasol. Mae'r nifer hwn o gwestiynau yn debyg i'r rhai a ddefnyddiwyd mewn ymchwil debyg a gynhaliwyd yn ddiweddar gan Parentkind ar bresenoldeb yn yr ysgol (Parentkind, 2024). Mae defnyddio 38 cwestiwn yn rhesymol gan ei fod yn caniatáu archwilio'r pwnc yn gynhwysfawr tra'n rhoi'r hyblygrwydd i gyfranogwyr hepgor cwestiynau nad ydynt yn berthnasol i'w sefyllfa.

## Canlyniadau

Dangosodd cyfanswm o 71 y cant o'r ymatebion (n=149) fod plant ym mhob un o'r ardaloedd awdurdodau lleol a restrir uchod yn mynychu ysgol gynradd. Roedd 38 y cant o'r ymatebwyr yn rhieni neu'n ofalwyr plant a oedd wedi cael diagnosis o angen dysgu ychwanegol. Dangosodd yr ymatebion sy'n weddill eu bod yn dal i ddisgwyl ar y llwybr, gyda'r cyfnod aros amcangyfrifedig yn amrywio o ychydig fisoedd i bum mlynedd.

O'u holi a oedd presenoldeb ADY neu statws bod ar y llwybr wedi cael effaith ar bresenoldeb eu plentyn, nododd 28 y cant o'r ymatebwyr ei fod wedi cael effaith, tra bod 72 y cant yn ansicr. Nid oedd 60 y cant o rieni a gofalwyr yn ymwybodol o ganran presenoldeb eu plentyn, gyda 38 y cant yn nodi nad oeddent wedi cael gwybod beth oedd y ganran yn ei olygu a goblygiadau hyn o ran yr effaith ar ddysgu eu plentyn. Efallai na fydd rhieni/gofalwyr nad ydynt yn deall arwyddocâd presenoldeb gwael yn gallu deall yn llawn y goblygiadau sy'n gysylltiedig â datblygiad eu plentyn trwy ymgysylltu â dysgu yn rheolaidd. Fel y nodwyd yn yr adolygiad

llenyddiaeth, gallai hyn arwain at fwlch dysgu, yn ogystal ag ADY, yn creu rhwystrau pellach i ymgysylltu, a all wedyn arwain at Osgoi Ysgol am Resymau Emosiynol (Thambirajah et al., 2008).

Dywedodd cyfanswm o 21 y cant o rieni a gofalwyr eu bod yn gweld rhwystrau i bresenoldeb eu plant yn yr ysgol. Pan ofynnwyd iddynt sut y gellid dileu rhwystrau i ymgysylltu, mynegodd rhieni'r farn y byddai mwy o hyfforddiant ADY i athrawon yn fuddiol, y dylai athrawon wrando mwy ar rieni, y byddai mwy o hyfforddiant ar Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth i athrawon yng nghyswllt merched yn ddefnyddiol, ac y dylai fod mwy o athrawon parhaol.

O ran yr adran cymorth ysgolion, nododd 17.4% o'r ymatebwyr fod angen gwelliannau, a oedd unwaith eto yn gysylltiedig â hyfforddiant athrawon mewn ADY. Mynegodd y mwyafrif o'r ymatebwyr foddhad â'r gefnogaeth a ddarparwyd gan Gydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY) yr ysgol, gyda dim ond nifer fach yn nodi nad oeddent yn siŵr pwy oedd yr unigolyn hwn. Pan ofynnwyd am yr hyn y gellid ei wella, nodwyd hyfforddiant athrawon unwaith eto fel blaenoriaeth, ynghyd â'r angen am ddiagnosis mwy amserol ac ystod fwy o opsiynau ar gael, gydag un rhiant/gofalwr yn nodi, 'dylai unedau gael eu neilltuo i bob ysgol brif ffrwd, 100 y cant'.

Roedd n=43 (28.8 y cant) o rieni/gofalwyr yn teimlo nad oedd ysgolion yn gwrando arnynt. Roedd patrymau tebyg yn dod i'r amlwg yn yr adran hon, gan dynnu sylw at yr angen am fwy o hyfforddiant i athrawon mewn ADY. Rhannodd cyfranogwyr hefyd fod angen mwy o athrawon parhaol, gyda rhiant yn nodi:

> Hyfforddiant Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth cydlynol a chyfannol ar gyfer staff a chynllun gweithredu fesul dosbarth, cyfnod allweddol a dull ysgol gyfan. Mae Cynllun Datblygu Unigol yn rhoi gwybodaeth a chefnogaeth unigol ond nid yw'r fframwaith mwy yn bodoli. (Cyfranogwr rhif 75)

Yn ogystal, nododd cyfranogwyr y dylai ysgolion flaenoriaethu gwrando mwy ar rieni a gofalwyr, gwella sianeli cyfathrebu rhwng ysgolion a rhieni a gofalwyr, a lleihau amseroedd aros ar gyfer diagnosis. Nododd n=39 o rieni/gofalwyr (26.2 y cant) nad oedd yr ysgol yn gynhwysol neu ond yn gynhwysol yn achlysurol. Pan ofynnwyd iddynt sut gallai'r ysgol ddarparu mwy o gymorth i'w plentyn, cynigiodd nifer sylweddol o gyfranogwyr awgrymiadau adeiladol. Serch hynny, nododd y mwyafrif o gyfranogwyr yr angen am fwy o hyfforddiant i athrawon ar ADY a diagnosis cyflymach.

> Gwrandewch ar bryderon rhieni a phlant. Bu sawl achlysur pan fu'r athrawon yn amddiffynnol pryd bynnag y bu'r rhieni'n codi pryderon yn hytrach na mynd i'r afael â'r materion a gwrando ar sut mae'r materion hyn yn effeithio ar y plentyn. (Cyfranogwr rhif 6)

> Cadwch at yr un athro am ei fod yn deall anghenion y plentyn. (Cyfranogwr rhif 48)

> Roedd yr ysgol yn arfer cynnal cyfarfodydd ADY i rieni. Mae'r rhain bob amser yn gwrthdaro â gwaith felly byddai'n braf eu cael yn hwyrach yn y dydd, ond rwy'n gwybod na fyddai'r llwyth gwaith ychwanegol ar staff yn deg. (Cyfranogwr rhif 82)

> I'r holl staff gael eu hyfforddi i ddeall plant ag anghenion ychwanegol. (Cyfranogwr rhif 107)

Roedd y rhan fwyaf o rieni/gofalwyr yn teimlo bod eu hysgol yn diwallu anghenion addysgol eu plentyn, o'r rhain ni roddodd 11.4 y cant 'Ydy' cadarn. Rhoddodd un rhiant ei farn ar sut gellir gwella hyn:

> Cyfathrebu rhwng yr ysgol a'r rhieni yn amlach ac mae'n rhaid i'r ysgol wrando ar rieni hefyd yn hytrach na'u sgubo o'r neilltu.(Cyfranogwr rhif 84)

O ran y cwestiwn am gymorth gan awdurdodau lleol, nododd y mwyafrif o'r rhieni a'r gofalwyr (81.2 y cant) nad oeddent yn derbyn cymorth i alluogi eu plentyn i fynychu'r ysgol. Fodd bynnag, nododd hyn gyfyngiad yn y cwestiwn a ofynnwyd, gan fod angen archwilio'r ateb hwn ymhellach i helpu i ystyried meysydd datblygiadol yn ymarferol.

Datgelodd canfyddiadau'r ymchwil nifer o themâu allweddol, gan gynnwys pwysigrwydd hyfforddiant a chyfathrebu ymhlith staff. Roedd cyfathrebu yn ganfyddiad allweddol gan Parentkind (2024, t. 5), a awgrymodd mai

> staff yn bod yn fwy parod i ddeall a gwell cyfathrebu/ yn haws cysylltu â nhw oedd yr ymatebion mwyaf poblogaidd, ac yna diagnosis cynharach a/neu ymyrraeth gynharach, i staff ysgol wrando ar y plentyn yn uniongyrchol, y gallu i wneud gwaith ysgol gartref, iddynt wrando ar bryderon a rhoi gwell cefnogaeth, gan gynnwys cymorth ADY. Nododd hefyd, pan ofynnwyd i rieni sut gallai ysgolion wella'r gefnogaeth maen nhw'n ei gynnig iddynt, yr ymatebion mwyaf cyffredin oedd i ysgolion ddeall y sefyllfa'n well a bod gwell cyfathrebu rhwng ysgolion a rhieni ynghylch absenoldeb y plentyn, yn enwedig wrth wrando ar yr hyn oedd gan rieni i'w ddweud. (Parentkind, 2024)

Mae hyn yn tynnu sylw at y ffaith bod cyfathrebu effeithiol yn agwedd sylfaenol ar yr holl wasanaethau a ddarperir i blant a phobl ifanc, gan gynnwys y rhai a ddarperir i'w teuluoedd. Mae hyn yn elfen hanfodol wrth hwyluso newid (Greenhouse

Learning, 2024). Os yw rhieni/gofalwyr yn teimlo nad oes unrhyw un yn gwrando arnynt, neu nad yw'r ymatebion a ddarperir gan weithwyr proffesiynol yn glir, efallai y byddant yn datgysylltu o'r broses (Knight et al., 2022).

O safbwynt y rhieni/gofalwyr, roedd yn amlwg bod diffygion wrth hyrwyddo presenoldeb, o ystyried nad oedd y mwyafrif o'r rhieni/gofalwyr yn ymwybodol o ganran presenoldeb eu plentyn. Ar ben hynny, nid oedd y mwyafrif o'r rhieni a'r gofalwyr yn ymwybodol o ganran presenoldeb eu plentyn a'i heffaith bosibl ar eu llwybr addysgol a'u dilyniant ôl-16.

## Casgliad

Mae'r astudiaeth hon wedi ceisio cyflwyno trosolwg o'r canllawiau deddfwriaethol sydd ar waith ledled y DU, gyda ffocws penodol ar y polisïau sy'n gysylltiedig â phresenoldeb yn yr ysgol. Mae'r weithred o fynychu'r ysgol o fwy pwysig nag ennill cymhwyster. Mae'n hwyluso datblygiad sgiliau cymdeithasol a rhyngweithio, ac mae hefyd yn lleihau'r tebygolrwydd eu bod yn cael eu hecsbloetio i droseddu. O ganlyniad, mae cael gwared ar rwystrau i ymgysylltu â dysgu yn hanfodol ar gyfer llwyddiant person ifanc, yn y tymor byr a'r tymor hir (Kearney, 2016). I bobl ifanc ag ADY, gall cyfuniad o fylchau dysgu, diffyg sgiliau cymdeithasol a rhyngweithiadau greu rhwystrau sylweddol i ddysgu. Mae hyn yn codi'r cwestiwn a yw amgylchiadau o'r fath yn cyfrannu at ddatblygiad achosion o blant yn osgoi ysgol am resymau emosiynol.

Presenoldeb yn yr ysgol yw'r sylfaen i lwyddiant plentyn, os nad ydym yn cael hyn yn iawn, gall yr effaith ar rannau eraill o fywyd person ifanc fod yn niweidiol. Mae canfyddiadau'r astudiaeth hon yn awgrymu bod cyfathrebu effeithiol rhwng rhieni/gofalwyr, athrawon/ysgolion ac awdurdodau lleol yn brin. Felly, mae angen gwaith pellach i atal plant a phobl ifanc rhag ymddieithrio o addysg ac o bosibl arwain at greu achosion o osgoi ysgol am resymau emosiynol.

***Argymhellion ar gyfer ymarfer:***

- I ddatblygu gwybodaeth a sgiliau ymarferwyr presennol ledled Cymru ymhellach, byddwn yn argymell cymryd rhan mewn cyfleoedd dysgu proffesiynol, megis y radd Meistr Genedlaethol mewn Addysg (Cymru) a

ariennir gan Lywodraeth Cymru, er mwyn helpu ymarferwyr i ddatblygu eu hymwybyddiaeth o ADY i'w galluogi i gefnogi ac eirioli'n fwy effeithiol dros ddysgwyr.

- Athrawon a'r rhai sy'n hyfforddi i fod yn ymarferwyr yn y maes, i gael mwy o ddealltwriaeth o'r effeithiau gydag ymgysylltiad cadarnhaol â rhieni/gofalwyr gyda mwy o systemau gwobrwyo, fel y rhai sy'n cynnwys rhieni neu foreau coffi tymhorol.
- Dylai hyfforddiant cychwynnol ac addysg gychwynnol athrawon gwmpasu'r ystod lawn o feysydd sy'n gysylltiedig ag ADY, gan gynnwys materion presenoldeb ysgol er mwyn hwyluso nodi'r anghenion hyn yn gynharach.
- Athrawon i gael hyfforddiant ADY fel rhan o ddysgu a datblygiad proffesiynol parhaus eu hysgol gyfan, ochr yn ochr â lledaenu arfer da a chael trafodaethau ystyrlon.
- Ar ôl tynnu sylw at yr heriau a'r cymhlethdodau sy'n ymwneud â phresenoldeb yn yr ysgol, ystyried yr angen am ymyriadau wedi'u teilwra mewn modd holistaidd, yn enwedig i'r rhai sydd ag ADY, er mwyn galluogi gwelliannau mewn ymgysylltiad â dysgu trwy bresenoldeb rheolaidd, gan sicrhau llwyddiant a llesiant myfyrwyr.

## Cydnabyddiaeth

Hoffwn ddiolch i'r awdurdodau lleol, a gytunodd i rannu'r ymchwil, a'r bobl a fu mor garedig â chymryd rhan; heb eu cefnogaeth ni fyddai'r ymchwil wedi digwydd ar draws ardaloedd awdurdodau lleol yng Nghymru.

Hoffwn hefyd gydnabod fy meibion, fy nhad, fy chwiorydd, fy nheulu a'm ffrindiau anhygoel am fod y tu ôl i mi bob cam o'r ffordd ac i'm mam wych, sydd heb amheuaeth yn edrych i lawr arnaf â balchder.

Diolch hefyd i dîm y radd Meistr Genedlaethol a staff Prifysgol Wrecsam am eu cefnogaeth barhaus drwy gydol fy astudiaethau.

**Cyfeiriadau**

Baker, M. a Bishop, F. (2015). Out of school: a phenomenological exploration of extended non-attendance. *Educational Psychology in Practice*, 31(4), 354–68. https://doi.org/10.1080/02667363.2015.1065473

BBC News (2023). Pupil absences remain above pre-Covid levels. Gw. https://www.bbc.co.uk/news/education-64747813 [cyrchwyd 9 Ebrill 2025].

Braun, V. a Clark, V. (2022). *Thematic Analysis. A Practical Guide*. London: SAGE.

Brooks, R., Riele, K., a Maguire, M. (2014). *Ethics and Education Research*. London: SAGE.

Casio, M. A. a Racine, E. (2018). Person-oriented Research Ethics: Integrating Relational and Everyday Ethics in Research. *Accountability in Research*, 25(3), 170–97. https://doi.org/10.1080/08989621.2018.1442218

Cohen, L., Manion, L., a Morrison, K. (2007). *Research Methods in Education*. 6ed argraffiad. Abingdon: Routledge.

Conn, C., Hicks, M. a Thomas, D. V. (2024). Datblygiadau mewn addysg gynhwysol ac anghenion dysgu ychwanegol yng Nghymru. *Cylchgrawn Addysg Cymru*, 26(2), 91–103. https://doi.org/10.16922/wje.26.2.7cym

Dannow, M., Esbjørn, B., a Risom, S. (2018). The Perceptions of Anxiety-related School Absenteeism in Youth: A Qualitative Study Involving Youth, Mother, and Father. *Scandinavian Journal of Educational Research*, 64(1), 22–36. https://doi.org/10.1080/00313831.2018.1479302

Darlington, Y. a Scott, D. (2002). *Qualitative Research in Practice*. London: Open University Press.

Deddf Addysg (1996). Gw. https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1996/56/contents [cyrchwyd 9 Ebrill 2025].

Dhivyadeepa, E. (2015). *Sampling Techniques in Educational Research*. London: Lulu.

Franklin, V. (2025). Tackling Persistent and Severe Absences. Gw. https://www.educationconferencesuk.co.uk/conferences-masterclasses/persistent-absence [cyrchwyd 9 Ebrill 2025].

Greenhouse Learning (2024). *Effective Communication: Strategies for Engaging Students and Facilitating Learning*. Gw. https://greenhouselearning.co.uk/effective-communication-strategies-for-engaging-students-and-facilitating-learning/ [cyrchwyd 9 Ebrill 2025].

Hughes, M. (2006). 'Multi-agency teams: Why should working together make everything better?', *Educational and Child Psychology*, 23(4), 60–71. https://doi.org/10.53841/bpsecp.2006.23.4.60

Inhelder, B. a Piaget, J. (1958). *The growth of logical thinking: From childhood to adolescence*. London: Routledge.

Kearney, C. A. (2016). *Managing school absenteeism at multiple tiers: An evidence-based and practical guide for professionals*. London: Oxford University Press.

Lave, J. a Wenger, E. (1991). *Situated learning: Legitimate peripheral participation*. Cambridge University Press.

Lune, H. a Berg, B. L. (2016). *Qualitative research methods for social sciences*. London: Pearson Higher Education.

Knight, C. a Crick, T. (2022). Inclusive Education in Wales: Interpreting Discourses of Values and Practice Using Critical Policy Analysis. *ECNU Review of Education*, 5(2), 258–83. https://doi.org/10.1177/20965311211039858

Knight, C., Clegg, Z., Conn, C., Hutt, M., a Crick, T. (2022). Aspiring to include versus implicit 'othering': teachers' perceptions of inclusive education in Wales. *British Journal of Special Education*, 49(1), 6–23. https://doi.org/10.1111/1467-8578.12394

Knight, C., Lowthian, E., Crick, T., Jones, C., Rawlings, A., Abbasizanjani, H., a Rees, S. (2024). Sociodemographic trends in special educational needs identification in Wales. *British Educational Research Journal*, 51(1), 466–87. https://doi.org/10.1002/berj.4083

Llywodraeth Cymru (2017). *Canllawiau statudol i helpu i atal plant a phobl ifanc rhag colli addysg: Pecyn cymorth ymarferol i helpu i nodi plant a phobl ifanc sy'n colli addysg.* Gw. https://www.llyw.cymru/canllawiau-statudol-i-helpu-i-atal-plant-phobl-ifanc-rhag-colli-addysg [cyrchwyd 9 Ebrill 2025].

Llywodraeth Cymru (2021). Y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol 2021. Gw. https://www.llyw.cymru/y-cod-anghenion-dysgu-ychwanegol [cyrchwyd 9 Ebrill 2025].

Llywodraeth Cymru (2023a). Absenoldebau o ysgolion cynradd: Medi 2022 i Awst 2023. Gw. https://www.llyw.cymru/absenoldebau-o-ysgolion-cynradd-medi-2022-i-awst-2023-html [cyrchwyd 9 Ebrill 2025].

Llywodraeth Cymru (2023b). Absenoldeb o ysgolion uwchradd: Medi 2022 i Awst 2023 (diwygiedig). Gw. https://www.llyw.cymru/absenoldeb-o-ysgolion-uwchradd-medi-2022-i-awst-2023-diwygiedig-html [cyrchwyd 9 Ebrill 2025].

Mcculloch, G. (2020). Compulsory School Attendance and the Elementary Education Act of 1870: 150 Years On. *British Journal of Educational Studies*, 68(5), 523–40. https://doi.org/10.1080/00071005.2020.1831434

Miles, J. (2022). *Mae angen ymdrech genedlaethol i gynyddu lefelau presenoldeb mewn ysgolion yn dilyn y pandemig.* Gw. https://www.llyw.cymru/mae-angen-ymdrech-genedlaethol-i-gynyddu-lefelau-presenoldeb-mewn-ysgolion-yn-dilyn-y-pandemig [cyrchwyd 9 Ebrill 2025].

ParentKind (2024). *The National Parent Survey 2023*. Gw. https://www.parentkind.org.uk/about-us/news-and-blogs/news/the-national-parent-survey-2023-revealed-that-the-parents-of-2-8m-children-are-struggling-to-afford-sending-them-to-school [cyrchwyd 9 Ebrill 2025].

Rowlands, M. (2022). *Adolygiad presenoldeb: goblygiadau'r pandemig COVID-19 ar bresenoldeb mewn ysgolion*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Ymchwil y Senedd (2021). Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yng Nghymru. Gw. https://ymchwil.senedd.cymru/erthyglau-ymchwil/cyhoeddiad-newydd-anghenion-dysgu-ychwanegol-ady-yng-nghymru/ [cyrchwyd 9 Ebrill 2025].

Thambirajah, M.S., Grandison, K.J. a De-Hayes L. (2008). *Understanding School refusal: a handbook for professionals in education, Health and Social Care*. London: Jessica Kingsley.

Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) (2010). Gw. https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2010/1954/contents/made/welsh [cyrchwyd 9 Ebrill 2025].

Thomas, G. (2023). *How to do your research project*. 4ydd argraffiad. London: SAGE.

Watson, J. B. (2017). *Behaviourism*. Abingdon: Routledge. Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2022). *Education, children's social care and offending: Descriptive statistics.* Llywodraeth yDU.Gw.https://assets.publishing.service.gov.uk/media/6227a9b58fa8f526dcf89e17/Education_children_s_social_care_and_offending_descriptive_stats_FINAL.pdf [cyrchwyd 9 Ebrill 2025].

Ymchwil y Senedd (2024). Ddim yn yr ysgol: absenoldeb disgyblion. Gw. https://ymchwil.senedd.cymru/erthyglau-ymchwil/ddim-yn-yr-ysgol-absenoldeb-disgyblion/ [cyrchwyd 9 Ebrill 2025].

Yr Adran Addysg (2023). Government to Tackle Post Pandemic Absence Rates. Gw. Government to tackle post pandemic absence rates with new support. Llywodraeth y DU. https://www.gov.uk/government/news/government-to-tackle-post-pandemic-absence-rates-with-new-support [cyrchwyd 9 Ebrill 2025].